Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Ionawr 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones (o 6.35pm), Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 107. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y cyfarfod drwy arwain y rhai a oedd yn dymuno cyfranogi mewn gweddi. Cyfeiriodd at farwolaeth diweddar brawd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, gan fynegi ei chydymdeimlad hi a'r Cyngor Tref i'r teulu.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE a Miss S. Fleming.

## 108. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20 Rhagfyr 2023 - Cofnodion rhifau 88-103

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 20 Rhagfyr 2023 - Cofnodion rhifau 33-36

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 109. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS

Croesawodd y Maer y Cynghorydd Rhys Thomas (Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau), Ms Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogaeth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau) a Ms Joanne Douglass (Rheolwr y Prosiect) i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas i'r Cyngor Tref am wneud lle iddynt ar yr agenda a chynghorodd bod Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn para am dair blynedd yn unig a bod yr un diwethaf a oedd yn berthnasol I'r ardal hon yn dod i ben ym mis Hydref 2023.

Mae'n ofynnol i orchmynion o'r fath fod yn bartneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i weithio'n effeithiol a bod swyddogion cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn am dystiolaeth gan Heddlu Gogledd Cymru am yr angen am un arall ar gyfer canol tref y Rhyl. Darparwyd y dystiolaeth ac roedd yn bodloni'r amodau cyfreithiol i gyfiawnhau Gorchymyn arall.

Mae'n ofyniad cyfreithiol cynnal cyfnod ymgynghori am dri mis, sydd yn yr arfaeth ac a fydd yn dod i ben am hanner nos ar 21 Ionawr 2024.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried mewn cyfarfod yr wythnos nesaf a gobeithir bwrw ymlaen wedi hynny.

Dywedodd Ms Vaughan-Evans fod Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn declyn a ddefnyddir gan yr heddlu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal benodol, ond mae'r ddeddfwriaeth yn nodi mai'r Awdurdod Lleol yw'r corff priodol i gyflwyno gorchymyn o'r fath.

Dangoswyd map yn nodi ffin y Gorchymyn arfaethedig ar y sgrîn ac esboniodd Ms Vaughan-Evans fod awgrym i gynnwys ardal y Marine Lake, ond nid oedd tystiolaeth ddigonol i gefnogi hynny.

Ymddygiad a ystyrir yn wrthgymdeithasol yw ymddygiad sy'n achosi niwsans, niwed neu'n aflonyddu ar unigolyn, grŵp o bobl a/neu eiddo.

Byddai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus hefyd yn galluogi mynd i'r afael ag yfed at y stryd, sef yfed alcohol o unrhyw fath o gynhwysydd mewn man cyhoeddus.

Er mwyn casglu sylwadau'r Cyngor Tref fel rhan o'r ymgynghoriad cyflwynodd Ms Vaughan-Evans gwestiynau'r ymgynghoriad i'r aelodau i gael eu hymateb ar y cyd, ond anogodd aelodau i gyflwyno eu sylwadau fel unigolion hefyd.

<u>A ydych chi'n cytuno y dylai Cyngor Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru fynd ati i gyflwyno Gorchymyn Diogelu Man Agored Cyhoeddus ar gyfer canol tref y Rhyl am uchafswm o dair blynedd, tan 2027?</u>

Cytunodd yr aelodau fod angen Gorchymyn Diogelu Man Agored Cyhoeddus.

<u>A ydych chi'n cytuno, petai'r Gorchymyn Diogelu Man Agored Cyhoeddus arfaethedig yn cael ei gyflwyno, y dylai gynnwys pwerau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed alcohol ar y stryd?</u>

Cytunodd yr aelodau fod angen y pwerau i ymdrin â'r ddau beth.

<u>Petai'r Gorchymyn arfaethedig yn bwrw ymlaen, a ydych chi'n cytuno gyda ffiniau arfaethedig ardal y cyfyngiadau?</u>

Roedd yr aelodau'n cytuno gyda'r ffin arfaethedig, ond yn teimlo y dylid ei hymestyn.

Roedd un cynghorydd wedi'i synnu nad oedd ardal y Marine Lake wedi'i chynnwys gan eu bod yn ymwybodol o broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol cymharol reolaidd yno.

Dywedodd Ms Vaughan-Evans fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynhyrchu mapiau'n dangos ble roedd troseddau mynych ac nad oedd ardal y Marine Lake yn ymddangos fel ardal sy'n achosi problemau, a dyna pam nad oedd yr ardal wedi'i chynnwys.

Holodd cynghorydd arall a fyddai modd cynnwys ardal De Orllewin y Rhyl oherwydd achosion o fotobeics yn cael eu gyrru ar y palmant ar gyflymder uchel yn ddyddiol, heb offer diogelwch ac yn ymddwyn mewn modd bygythiol a heb ystyried cerddwyr. Maent yn rasio o gwmpas y goedwig ger Marsh Tracks er gwaethaf Cyngor Sir Ddinbych wedi gosod rhwystrau yno i atal mynediad i gerbydau.

Dywedodd Ms Vaughan-Evans y byddai'r holl adborth a dderbyniwyd heno yn cael ei gofnodi a gofynnodd i'r cynghorwyr annog trigolioin i hysbysu am yr ymddygiad hwn a defnyddio sgwteri trydanol mewn modd anghyfrifol wrth yr Heddlu i wneud yn siwr bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ystadegau'r Heddlu.

Mewn ymateb i gynghorydd yn hysbysu am fandaleiddio hysbysfwrdd wrth y Marine Lake dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Camerâu Teledu Cylch Cyfyng i gryfhau'r ddadl dros gael camerâu yno.

Gofynnodd cynghorydd pa fath o gymorth a gynigir i'r rhai â phroblemau bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol sy'n cael eu symud o ardal y Gorchymyn gan yr Heddlu?

Cynghorodd Ms Vaughan-Evans fod ymarfer mapio asedau'n cael ei gyflawni fel rhan o'r broses i benderfynu a oedd angen Gorchymyn Diogelu Man Agored Cyhoeddus Newydd ac, yn achos yfed alcohol ar y stryd, bod nifer o ymyriadau i ymgysylltu ag unigolion ac i wneud atgyfeiriadau i sefydliadau perthnasol ac adrannau'r Cyngor i gael cymorth a chefnogaeth.

Awgrymodd y Cynghorydd Thomas y byddai gwasgaru pobl gan yr Heddlu a faint o ymgysylltu a chyfeirio a wneir ganddynt yn gwestiwn da i'w ofyn yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y Rhyl, sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Heddlu.

Ychwanegodd Ms Vaughan-Evans fod Gorchymyn Diogelu Man Agored Cyhoeddus yn fwy o fan cychwyn o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i fod yn rhywbeth y gellir ei ddefnyddio fel dull aml-asiantaeth a rhyngadrannol i ddelio â phroblemau cymhleth.

Gofynnodd cynghorydd a oedd modd i'r cyhoedd neu gynghorwyr weld y dystiolaeth y cyfeiriwyd ati a ddarparwyd gan yr Heddlu.

Dywedodd Ms Vaughan-Evans nad oedd y dystiolaeth ar gael i'r cyhoedd oherwydd natur sensitif y wybodaeth, ac fe'i rhannwyd gyda swyddogion cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn unig er mwyn bodloni'r meini prawf cyfreithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn am faw cŵn a ph’un ai oedd hynny’n cael ei ystyried yn wrthgymdeithasol ac felly yn rhan o gylch gwaith y Gorchymyn, cynghorodd Ms Vaughan-Evans nad oedd yn berthnasol i hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fod hwn yn fater gwarchod y cyhoedd, a oedd yn rhan o’i phortffolio Cabinet hi, a byddai’n canfod beth oedd y sefyllfa o ran sut roeddynt yn mynd i’r afael â phobl yn caniatáu i’w cŵn faeddu a ddim yn ei waredu.

Cynghorodd Ms Vaughan-Evans fod yr holl arwyddion o ran gwneud y Gorchymyn yn gadarnhaol, ac os yw’n parhau felly byddai’r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno, ei hyrwyddo a byddai’n holl arwyddion yn eu lle erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

Diolchodd y Maer i’r Cynghorydd Thomas, Ms Vaughan-Evans a Ms J. Douglass am ddod i’r cyfarfod.

**110. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a’r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi wedi’i ddosbarthu gyda’r agenda). Roeddynt yn cynnwys Nofio Dydd San Steffan yr RNLI lle bu’r Maer yn gweini diodydd poeth a bisgedi i’r nofwyr ar ôl iddynt ddod allan o’r môr a lansio’r caffi elusennol ‘Storm in a Teacup’ yng Nghanolfan Gymuned Ffordd Las, a oedd yn argoeli i fod yn ased gwerthfawr i’r gymuned.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr adroddiad.*

**111. <u>CYFLWYNIAD: COFNOD O GYFNOD YN SWYDD Y MAER</u>**

Cyflwynodd y Maer gofnod o’i dwy flynedd fel Maer rhwng 2021 a 2023 i’r Cynghorydd Mrs D. L. King a diolchodd iddi am ei gwasanaeth, ar ran y Cyngor Tref.

**112. <u>ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)</u>**

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda’r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a’r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol - HW |
| 1745 | BT | 271.12 | Llinellau ffôn a band eang |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol – HW |
| 1740 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| 1748 | HSBC | 32.00 | Ffi blynyddol cerdyn banc |
| 1658 | Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 9 o 12 |
| 1745 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.31 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Tachwedd 2023 |
| 1746 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Tachwedd 2023 |
| 1747 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 10,710.95 | Tál net mis Rhagfyr 2023 yn cynnwys dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 9 o 10 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol – GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol – GN |
| 1659 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 3 o 4 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£22,694.13** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 286.44 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Money Maker | 366.50 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| Rhyl BID | Cystadleuaeth addurno ffenestri busnesau ar gyfer y Nadolig – fframiau a siocledi | 36.00 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2023/24 – cyfran 3 o 3 | 185,318.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£186,077.54** |

## 113. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1759 | B&M | Fframiau a siocledi i'r gystadleuaeth addurno ffenestri busnes ar gyfer y Nadolig a lluniaeth yn ystod y cyfarfodydd | 49.58 |
| 1760 | Morrisons | Lluniaeth ysgafn yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor | 29.29 |
| 1761 | Lawnscience | Triniaeth yr Hydref yn y Gerddi Coffa (anfoneb wedi'i derbyn yn hwyr) | 42.00 |
| 1762 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 287.68 |
| 1763 | JDH Business Services Ltd | Adroddiad Archwilio Mewnol interim 2023/24 | 450.00 |
| 1764 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i ddau gynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2024 | 44.00 |
| 1765 | Cyngor Sir Ddinbych | Canolfan Gymuned Ffordd Wellington – Tâl Gwasanaeth y Swyddfeydd Dinesig, mis Ebrill – mis Rhagfyr 2023 | 11,469.00 |
| 1766 | Cyngor Tref Dinbych | Dau docyn i Gyngerdd Elusennol y Maer ar 20 Ionawr 2024 | 20.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£12,391.55** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo taliadau'r atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**114. CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023 cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo

***PENDERFYNWYD*** *mabwysiadu'r Cynllun.*

**115. YMGYNGHORIAD – SYMIAU CYMUDOL – ESGOBAETH LLANELWY – PROSIECT MYNWENT EGLWYS SANT TOMOS**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gais a gyflwynwyd gan Esgobaeth Llanelwy am gyllid Symiau Cymudol ar gyfer datblygu mynwent Eglwys Sant Tomos (dosbarthwyd copi o'r cais gyda'r agenda) yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref.

Wedi trafodaeth ***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau o blaid y cais i wella ardal y fynwent.*

**[Datganodd y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard a Mrs J. Chamberlain-Jones fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod, gan eu bod wedi cyflwyno eu cais eu hunain am Swm Cymudol ar gyfer prosiect yn eu ward, a gadawsant y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem.]**

**116. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I SYSTEM Y DRETH GYNGOR**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref ystyried barn Llywodraeth Cymru fod y strwythur Bandiau cyfredol yn annheg gan fod y rhai yn y bandiau treth isaf yn talu canran uwch o'r Dreth Gyngor na'r rhai yn y bandiau treth uchaf.

Cynigiwyd tri dewis, fel a ganlyn:

<u>Dewis 1</u>

Cadw 9 band y Dreth Gyngor sy'n bodoli eisoes ond ailbrisio eiddo i adlewyrchu gwerth y farchnad, gyda'r canlyniad y byddai oddeutu 8 o bob 10 aelwyd yn gweld eu Treth Cyngor yn lleihau. Teimla Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn welliant, ond na fyddai'n mynd i'r afael yn llwyr â'r elfen tegwch.

<u>Dewis 2</u>

Fel uchod, ond newid y cyfraddau a godir ar bob band fel bod aelwydydd yn y bandiau isaf yn gweld eu biliau Treth Cyngor yn lleihau a byddai aelwydydd yn y bandiau uchaf yn gweld eu biliau yn cynyddu. Byddai oddeutu 7 o bob 10 aelwyd yn gweld eu biliau yn lleihau neu'n gweld newid bychan ynddynt.

<u>Dewis 3</u>

Cynyddu nifer y bandiau o 9 i 12 (un ar y gwaelod a dau ar y brig), gan wneud pob band yn gyson ar draws y strwythur cyfan a newid y cyfraddau a godir ar bob band, gan arwain at dalu llawer llai gan y rhai yn y bandiau isaf a mwy'n cael ei dalu gan y rhai yn y bandiau uchaf. Teimla Llywodraeth Cymru y byddai'r dewis hwn yn diwygio'r system gyfan yn arwyddocaol ac yn ei gwneud yn decach drwyddo draw, gyda lleihad mwy i'r aelwydydd yn y bandiau isaf a chynnydd mwy i'r rhai yn y bandiau uchaf. Byddai tua 7 o bob 10 aelwyd yn gweld biliau'n lleihau neu fawr ddim newid yn eu biliau.

Cynghorodd Clerc y Dref mae'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan Gyngor Sir Ddinbych yw Dewis 3, a fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet yr wythnos nesaf, a gofynnodd i'r aelodau pa ddewis oedd eu hoff ddewis nhw.

Ychwanegodd Clerc y Dref fod y dewisiadau a gynigiwyd yn fan cychwyn ac y disgwylir nifer o ymgynghoriadau pellach ar y mater hwn, a fydd yn rhoi mwy o fanylion.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *fod yr aelodau'n cytuno fod y system gyfredol wedi dyddio ac yn annheg ac felly angen ei adolygu ac o'r tri dewis a gynigiwyd, eu hoff ddewis oedd Dewis 3.*

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, a gadawodd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem hon.]**

**117. <u>IS-BWYLLGOR ARFAETHEDIG: PWYSAU ARIANNOL AR GYLLIDEB CYNGOR SIR DDINBYCH</u>**

Ymhellach i gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau a oeddynt yn teimlo y byddai pwyllgor bychan i ystyried yr holl geisiadau ariannol yn y dyfodol, yn cynnwys unrhyw rai gan Gyngor Sir Ddinbych, a gwneud argymhellion i'r Cyngor.

O ran unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, argymhellod Clerc y Dref y dylai'r pwyllgor eu hystyried ar adeg pan fydd rhychwant llawn y toriadau'n hysbys, gan olygu ei fod yn y sefyllfa orau i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n cytuno y byddai pwyllgor bach o Gynghorwyr Tref yn unig yn ddefnyddiol ac maei'r aelodau fyddai'r Cynghorwyr S. Feeney, K. R. Jones, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.*

**118. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..